



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae'n bosibl y bydd y Ddogfen hon ar gael hefyd mewn fformat amgen a mewn ieithoedd eraill os gofynnir, os bydd yn rhesymol ddichonadwy eu darparu.

Perchennog y Polisi: Y Weinyddiaeth Gorfforaethol

Cymeradwy-wyd gan: Bwrdd Yr Iaith Gymraeg

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Ebrill 2010

Dyddiad Adolygu: 20 Ebrill 2013

Rhif Adnabod y Polisi:

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Ein Gweledigaeth	5
Cyfleoedd Cyfartal	5
1 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau	6
1.1 Prif-ffrydio	6
1.2 Polisiâu a Mentrau Newydd	6
1.3 Darparu Gwasanaethau	7
1.4 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill	8
1.5 Grantiau a Chyllid	9
1.6 Partneriaeth	9
1.7 Safonau Ansawdd	10
1.8 Twf	10
2 Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	11
2.1 Cyfathrebiad Ysgrifenedig	11
2.2 Cyfathrebiad ar y Ffôn	12
2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus	12
2.4 Cyfarfodydd Eraill	13
2.5 Delio â'r cyhoedd trwy gyfryngau eraill	14
2.6 Technoleg Gwybodaeth	14
3 Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad	15
3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol	15
3.2 Arwyddion	16
3.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd	16
3.4 Ffurflenni	17
3.5 Datganiadau i'r Cyfryngau	18
3.6 Hysbysebu a Chyhoedduswydd	18
3.7 Hysbysebion Recriwtio	18
4 Gweithredu a Monitro'r Cynllun	19
4.1 Staffio a Recriwtio	19
4.2 Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Galwedigaethol	21
4.3 Trefniadau Gweinyddol	22
4.4 Trydydd Partïon	23
4.5 Monitro'r Cynllun	24
4.6 Ymchwiliadau dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg	25
4.7 Cwynion	25
4.8 Cyhoeddi Gwybodaeth	26
4.9 Cyhoedduswydd	26
5 Amserlen	28

Rhagair

Rydym yn falch o'r cyfle i gyflwyno ichi'r ddogfen bwysig hon a fydd, gobeithio, yn egluro'n ddiamwys i gleifion, ymwelwyr a'r staff ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol cyn belled ag y mae gwasanaethau dwyieithog yn y cwestiwn. Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau ni gael eu trin gyda pharch ac urddas a derbyn gwasanaethau safonol, diogel ac ymatebol a fydd ar gael yn eu dewis iaith.

Gallai cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd ac aelodau staff fod dan anfantais os nad ydynt yn cael cyrchu gwasanaethau yn eu dewis iaith. Ein dymuniad felly yw mynd ati'n rhagweithiol wrth gynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith y maent am ei defnyddio wrth ddelio â'r gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.



Win Griffiths (Cadeirydd) a David Sissling (Prif Weithredydd)

Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABM) yw enw gweithredu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol ABM. Mae ABM wedi ymroi i'w rwymedigaethau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac mae wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes â'r cyhoedd, yn trin yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Dyma Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM. Mae'n adeiladu ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan y sefydliadau a'i rhagflaenodd, ac o ganlyniad mae nifer o'r mesurau a grybwyllir yn y cynllun hwn mewn grym yn barod. Unwaith y terfynir y cynllun, bydd angen iddo dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r cynllun hwn yn egluro'r weledigaeth gyffredinol o'r hyn y mae'r sefydliad yn dymuno ei gyflawni yn y pendraw. Er y gellir gwireddu cyfran sylweddol o hyn yn ystod tair blynedd y cyfnod gweithredu, rhaid cydnabod y bydd angen cyfnod sylweddol hwy er mwyn cwblhau agweddau penodol; er enghraifft, yr angen i gynyddu'r gyfran o weithlu'r Bwrdd Iechyd sy'n meddu ar sgiliau dwyieithog ar draws pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir.

Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel ar gyfer ei gleifion, ni waeth am eu dewis iaith, fe sicrhâ'r sefydliad hwn fod cyfleusterau a phrosesau priodol ar gael ym mhob prif faes gwasanaeth er mwyn hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau dwyieithog.

Rhyw 21% o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001). Mewn cydnabyddiaeth o hyn, ac o'i ddyletswydd dan "Y Ddeddf," fe weithreda'r Bwrdd Iechyd y cynllun hwn er mwyn i gleifion/ defnyddwyr gwasanaethau dderbyn eu triniaeth a'u gofal trwy gyfrwng eu dewis iaith.

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol i weithrediad y cynllun:

- Mae pobl yn gallu mynegi eu syniadau'n fwy effeithiol ac yn fwy cyfforddus yn eu dewis iaith
- Dylid annog y cyhoedd yn gadarnhaol i ddefnyddio eu dewis iaith fel mater o arferion da yn hytrach na fel consesiwn;
- O ran cydraddoldeb, mae gan gleifion/ defnyddwyr gwasanaethau yr hawl i ddewis ym mha iaith y maent am gyfathrebu.

Proffil y Bwrdd Iechyd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM yn darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd ar gyfer poblogaeth o ryw 600,000 yn ardaloedd Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Penybont ar Ogwr a rhannau gorllewinol Bro Morgannwg. Yn ogystal, mae ein gwasanaethau arbenigol yn cwmpasu rhannau llawer ehangach o Gymru.

Mae'n cyflogi tuag 16,000 o aelodau staff ac yn 2009/10 yr oedd ganddo gyllideb flynyddol o fwy na £1 biliwn. Mae gan y Bwrdd Iechyd bedwar prif safle ysbyty, sef Singleton, Treforys, Castell Nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Er bod Deintyddwyr, Meddygon Teulu, Fferyllwyr ac Offthalmolegwyr yn gontractwyr annibynnol o hyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddatblygu trefniadau gweithio clòs gyda'r contractwyr annibynnol hyn a felly hefyd gyda sefydliadau partnerol megis cynghorau iechyd cymuned, yr heddlu, y sector gwirfoddol, prifysgolion ayyb.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn lletya nifer o sefydliadau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef yr Asiantaeth Genedlaethol Arweiniad ac Arloesedd dros Ofal Iechyd, y Ganolfan dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Uned Gyflenwi a Chymorth Genedlaethol.

Cenhadaeth a Gwerthoedd Arweiniol y Bwrdd Iechyd

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod y gwerthoedd yng nghyswllt gwasanaethau cyhoeddus y bydd y GIG yn gweithredu yn unol â hwy. Mae angen inni ymgysylltu â'r staff a'n partneriaid yn y cyd-destun hwn gyda golwg ar ddatblygu gweledigaeth, diwylliant a gwerthoedd y Bwrdd Iechyd. Fe gyhoeddir gwybodaeth am genhadaeth a gwerthoedd arweiniol y sefydliad ar ei wefan: www.abm.wales.nhs.uk

Cynnwys y Cynllun

Cyhoeddir y Cynllun fel dogfen ddwyieithog, ac mae'n manylu ar y mesurau a argymhellir gennym i wireddu'r egwyddor o gydraddoldeb a amlinellir yn adran pump o Dfeddf yr Iaith Gymraeg (1993). Mae'r mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun yn cyfeirio at y sefyllfa yr anelir ati yn y pendraw.

1 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

1.1 Prif-ffrydio

Pan fydd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn cynllunio ac yn llunio polisïau neu fentrau newydd, neu'n diweddarau polisïau sydd mewn bodolaeth, bydd yn asesu'r goblygiadau ieithyddol i sicrhau eu bod yn bodloni'r ymrwymïadau a roddir yn y Cynllun hwn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio polisïau a mentrau newydd /wedi'u diweddarau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac i symud y sefydliad yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod gan bob aelod staff rôl hanfodol i'w chwarae wrth hybu'r defnydd o'r Gymraeg, ni waeth a ydynt yn ei siarad neu beidio. Fe sicrhâ'r Bwrdd Iechyd hefyd fod gan y rhai sy'n cyflwyno ac yn gweithredu polisïau a mentrau newydd /wedi'u diwygio ddealltwriaeth glir o werthoedd a bwriadau'r Cynllun a bod y bwriadau hyn yn cael eu troi'n weithgareddau.

1.2 Polisïau a Mentrau Newydd a Diwygiedig

1.2.1 Fe sicrhâ'r Bwrdd fod yr iaith Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio wrth inni lunio polisïau a mentrau newydd, a hynny trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ffurfio rhan o Gynllun Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd.

1.2.2 Mae unrhyw ddefnydd a wneir o'r gair 'dwyieithog' yn cyfeirio at y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth lunio polisïau a mentrau newydd a diwygiedig fe fydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Asesu effeithiau ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd gan sicrhau eu bod yn gydnaws â Chynllun yr Iaith Gymraeg
- Hwyluso a hybu'r defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd gan sicrhau na bydd yr un polisi na menter newydd yn tanseilio Cynllun yr Iaith Gymraeg
- Manteisio ar bob cyfle i weithredu egwyddor cydraddoldeb pryd bynnag y cwyd y cyfle i wneud hyn
- Ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch argymhellion a fydd yn effeithio ar y Cynllun Iaith hwn neu ar gynlluniau sefydliadau eraill
- Sicrhau nad yw Cynllun yr Iaith Gymraeg yn cael ei newid heb inni ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Targed 1 – Polisiâu a Mentrau Newydd

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM yn cadw'r Gymraeg mewn ystyriaeth ym mholisiâu a mentrau allweddol y sefydliad trwy weithio gyda phob Grŵp Rhaglen Glinigol trwy gydol cyfnod y Cynllun.

DIG1 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Polisiâu a Mentrau Newydd

Nifer a % y polisiâu a mentrau newydd fydd yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ieithyddol.

1.3 Darparu Gwasanaethau

1.3.1 Cydnabyddir yn gyffredinol ei bod yn hanfodol bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff allu cyfathrebu'n rhwydd â'i gilydd. Wrth ddarparu ei wasanaethau yn unol â chynnwys y Cynllun hwn, fe fydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Cynnig gwasanaethau ar bob cyfle posibl yn newis iaith y cleifion heb fod angen iddynt ofyn yn benodol am hyn
- Ymdrechu i sicrhau bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ym mhob cyd-destun gofal. Mewn meysydd gwasanaeth lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg, fe wneir trefniadau i sicrhau serch hynny fod modd i gleifion Cymraeg eu hiaith dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd ar gyfer y staff er mwyn hwyluso gweithrediad Cynllun yr Iaith Gymraeg
- Hybu gweithle dwyieithog a thynnu sylw at wasanaeth cyfieithu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cyfieithiadau safonol o'r holl ddogfennaeth berthnasol a gynhrychir gan y Bwrdd Iechyd ar gael i gleifion.

1.3.2 Bydd y systemau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio yn ôl natur y gwaith, y gwasanaeth sy'n cael ei gynig a'r gyfran o aelodau staff sy'n ddwyieithog yn y gwahanol adrannau. Timau Rheoli'r Cyfarwyddiaethau Clinigol, mewn cydweithrediad â Swyddog Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu sefydlu. Ond bydd pob system yn rhoi sylw arbennig i'r:-

- Mecanweithiau ar gyfer sefydlu a chofnodi dewis iaith pob claf cyn gynted â phosibl trwy'r system weinyddu cleifion neu gymhwyster cyfatebol
- Trefniadau ar gyfer y gwasanaeth i'w ddarparu yn uniongyrchol neu drwy gyfieithu i'r ddewis iaith

- Trefniadau i sicrhau bod adrannau eraill yn ymwybodol o ddewis iaith y cleifion ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio fel na bydd yn rhaid i gleifion ofyn am wasanaeth yn Gymraeg.

1.4 Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill

Wrth gomisiynu gwaith gan eraill, fe noda'r Bwrdd Iechyd y trefniadau sy'n mynnu eu bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y sefydliad.

Ble mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli Ymarfer Meddygol yn uniongyrchol, bydd yn anelu at sicrhau eu bod yn cymryd ystyriaeth lawn y cynllun hwn wrth ddarparu gwasanaethau l'r cleifion sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd.

1.4.1 Mae Contractwyr Gofal Sylfaenol (h.y. – Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr ac Optegwyr) yn contractwyr hunan-gyflogedig annibynnol, nid cyflogedigion y Bwrdd Iechyd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i adeiladu ar sail y cydberthnasau a hyrwyddwyd gan y cyrff a'i rhagflaenodd ym maes gofal sylfaenol trwy gydweithio'n glòs â'r contractwyr a'u staff, gan eu hannog a'u cynorthwyo'n barhaus i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer poblogaeth dalgylch ABM. Fe sicrhâ'r Bwrdd Iechyd fod y dimensiwn iaith yn cael ei ystyried yn y meysydd gwasanaeth canlynol:

- mewn safonau gofal
- mewn rhaglenni gwelliant
- mewn modelau ymarfer newydd
- yn natblygiad y gweithlu.

1.4.2 Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau hefyd i hybu dwyieithrwydd mewn cartrefi gofal i sicrhau cyfathrebiad effeithlon â'r cleifion oedrannus, sef un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed a grybwyllir yn 'Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd' (Cyngor Defnyddwyr Cymru) 2000. Pan fydd cytundebau gwasanaeth yn cael ei adnewyddu, fe fydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gofynion Cymraeg.

Targed 2 - Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill

Datgana Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM ofynion y Cynllun Iaith yn glir fel y bydd yr iaith yn elfen annatod o'r gwasanaethau a ddarperir gan eraill

DIG2 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill

Nifer a % y cytundebau a fonitir sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.

1.5 Grantiau a Chyllid

Pan fo'r Bwrdd lechyd yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cyflawni yng Nghymru, fe fydd yn gosod telerau ynghylch y defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn fe gymera i ystyriaeth ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt dyfarnu grantiau a benthyciadau.

1.6 Partneriaethau

1.6.1 Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

1.6.2 Pan fo'r Bwrdd lechyd yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, fe fydd yn sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.

1.6.3 Pan fo'r Bwrdd lechyd yn ymuno â phartneriaeth lle bo corff arall yn arwain, bydd ei fewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith, a bydd y Bwrdd lechyd yn annog y partïon eraill hwythau i gydymffurfio.

1.6.4 Pan fo'r Bwrdd lechyd yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Bwrdd lechyd yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

1.6.5 Pan fo'r Bwrdd lechyd yn ffurfio neu'n ymuno â phartneriaeth fe fydd yn holi ei ddarpar bartneriaid ynghylch eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu polisiau iaith neu'r moddau eraill a ddefnyddir ganddynt i weithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth bydd y Bwrdd lechyd yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau eraill.

1.6.6 Pan fo'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill, bydd y Bwrdd lechyd yn hyrwyddo ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn annog sefydliadu y mae'n cydweithio â hwy wrth ddarparu gwasanaethau i gynnis darpariaeth yn y Gymraeg yn ei holl gysylltiadau â'r cyhoedd. Fe gyflawnir hyn trwy gyfrwng:

- Cyfarwyddyd ysgrifenedig i bob contractiwr a phob sefydliad yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i roi ar ddeall iddynt mor bwysig ydyw eu bod yn cynhyrchu eu deunyddiau'n ddwyieithog
- Hyfforddiant yn y Gymraeg a chymorth ieithyddol i helpu staff gwirfoddol yn y rheng flaen i gydymffurfio â'r Cynllun
- Angenrheidrwydd I fysnesau preifat sy'n gweithredu ar safleoedd y Bwrdd lechyd i ddefnyddio arwyddion dwyieithog

- Cynorthwyo a chynghori contractwyr gofal sylfaen i gydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

1.7 Safonau Ansawdd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn y ddwy iaith, a datgenir hyn mewn dogfennau allweddol. Mae cyfathrebiad effeithlon â chleifion a'r cyhoedd yn rhan allweddol o ddarparu gofal iechyd safonol, ac mae cyfathrebu yn eu dewis iaith yn elfen amhepgorol.

Mae Safonau Gofal Iechyd newydd GIG Cymru'n adlewyrchu hyn, gan gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae Safon 18 o'r Safonau Gofal Iechyd yn datgan y bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â statws cyfreithiol y Gymraeg ac yn ei defnyddio wrth gyfathrebu â chleifion a'r cyhoedd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- 1.7.1 sicrhau bod gwasanaeth o'r un safon yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith
- 1.7.2 datgan yr egwyddor o safonau cyfartal mewn dogfennau polisi allweddol e.e. adroddiadau blynyddol
- 1.7.3 gosod safonau ar gyfer darparu gwasanaethau a delio â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg
- 1.7.4 monitro'r safonau a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu
- 1.7.5 sicrhau cysondeb yn safonau'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg gan y Bwrdd Iechyd ym mhob lleoliad.

1.8 TWF

- 1.8.1 Un o brosiectau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw TWF. Ei nod yw cryfhau trosglwyddiad iaith o fewn y teulu trwy gydweithio'n glòs â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd o'r buddion sy'n deillio o gyflwyno'r iaith Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd a manteision addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cydweithio â phrosiect TWF ac yn ei gynorthwyo i:

- Ddosbarthu ffolder a ddarperir gan TWF i gadw cofnodion mamolaeth
- Cyflwyno cerdyn cyflwyno TWF i amglorio delwedd y sganiad cyn-geni a gymerir yn 12fed wythnos y beichiogiad

- Dosbarthu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu fel rhan o'r sgysiau am sgiliau rhianta a roddir gan Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd
- Sicrhau bod posteri a deunyddiau hysbysebu TWF yn cael eu harddangos a'u dosbarthu mewn mannau cyhoeddus priodol trwy ganiatáu i Weithwyr Maes TWF ymweld â safleoedd fel y mynnont.
- Ymgysylltu â swyddog lleol TWF i sicrhau bod gwaith ac ymgyrchoedd TWF yn cael eu hybu o fewn y Bwrdd Iechyd.

2 Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Fe sicrhâ'r Bwrdd Iechyd fod aelodau o'r cyhoedd sydd am ddelio â'r Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud hyn â chroeso yn Gymraeg neu Saesneg.

2.1 Cyfathrebiad ysgrifenedig

Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu gohebiaeth gan y cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg gan gynnwys llythyron, ffacsiau, e-byst a negesau testun. Tra'n cydnabod y gallai gymryd amser arnom i sicrhau cyfieithiad manwl gywir o'r ohebiaeth sy'n dod i mewn a'r atebion iddi, fe sicrhâ'r Bwrdd Iechyd:

- 2.1.1 Nad yw gohebu yn Gymraeg yn golygu unrhyw oedi a fyddai'n ein rhwystro rhag cwrdd â'r targedi ar gyfer amserau ateb.
- 2.1.2 Y bydd llythyron a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg.
- 2.1.3 Lle bo'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol eisoes mai'r Gymraeg yw dewis iaith gohebu'r unigolyn, y bydd yn ateb yn Gymraeg fel mater o drefn.
- 2.1.4 Os mai'r Gymraeg oedd iaith y cyfathrebiad cyntaf ar y ffôn neu wyneb yn wyneb, y bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg onid yw'r aelod hwnnw o'r cyhoedd yn dymuno fel arall.
- 2.1.5 Y bydd gwybodaeth, cylchlythyron ac unrhyw ohebiaeth gyffredinol arall a gynhrychir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer sylw'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 2.1.6 Y bydd y Bwrdd Iechyd yn cychwyn pob gohebiaeth yn ddwyieithog os na wyddys am iaith y sawl fydd yn ei derbyn.
- 2.1.7 Pan dderbynia'r Bwrdd Iechyd ohebiaeth electronig, y cymhwysir yr un egwyddor ag at ohebiaeth ysgrifenedig.

- 2.1.8. Y bydd pob llofnod ar negesau e-bost yn ddwyieithog.
- 2.1.9 Bydd negesau 'allan o'r swyddfa' yn ddwyieithog.
- 2.1.10 Fe efnyddir gwasanaeth cyfieithu'r Bwrdd lechyd i sicrhau bod y gweithrediadau uchod yn cael eu cyflawni, a rhoddir canllawiau i'r staff ynglŷn â sut i gyflawni ymrwymiad y Bwrdd lechyd i ohebu yn Gymraeg.

2.2 Cyfathrebu ar y Ffôn

- 2.2.1 Bydd croeso i unrhywun sy'n cysylltu â'r sefydliad hwn wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe sicrhair bod galwyr yn teimlo bod croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith. Ni wneir iddynt deimlo eu bod yn aflonyddu nac yn peri anghyfleuster oherwydd eu bod am siarad yn Gymraeg.
- 2.2.2 Fe annogir y staff i gyd i ateb y ffôn trwy gyfarch yn ddwyieithog. Os bydd y galwr yn ateb yn Gymraeg ac nad yw'r gweithredydd ffôn yn rhugl yn yr iaith, fe drosglwyddir y galwr at aelod o'r staff sy'n medru Cymraeg. Os nad oes aelod o'r staff sy'n medru Cymraeg ar gael, fe roddir i'r galwr yr opsiwn o drefnu bod aelod o'r staff sy'n medru Cymraeg yn dychwelyd yr alwad, neu ystyried canlyn arni â'r alwad yn Saesneg.
- 2.2.3 Os bydd angen dod o hyd i aelod staff sy'n medru Cymraeg i ddychwelyd galwad, dylai hyn ddigwydd o fewn amser rhesymol.
- 2.2.4 Fe ddarperir hyfforddiant ar gyfer aelodau staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w galluogi i ddelio'n ddigonol â galwadau gan siaradwyr Cymraeg.
- 2.2.5 Fe fydd negesau peiriant ateb a lleisbost a gyrchir trwy ddeialu'n uniongyrchol yn ddwyieithog. Fe wneir hyn trwy gyfrwng rhaglen gynlluniedig i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i gyflawni hyn ac o sut i gael hyd i gyfieithiad o unrhyw negesau a adewir iddynt yn Gymraeg.
- 2.2.6 Fe ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol wrth benodi staff newydd i weithio ar y prif switsfyrddau.

2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mewn cyfarfodydd lle gwahoddir y cyhoedd i gyfrannu a mynegi eu syniadau, mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod croeso i'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg a bod modd iddynt wneud hyn. Er mwyn gwireddu hyn, fe fydd trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn cynnwys gwahodd y cyhoedd trwy hysbysebion a gwahoddiadau i hysbysu'r Bwrdd lechyd

am eu dymuniad i gyfrannu yn Gymraeg fel y gellirgwneud trefniadau cyfieithu ar y pryd.

Yn ogystal fe fydd y sefydliad hwn yn:

- 2.3.1 Cyhoeddi pob hysbysiad am gyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog gan egluro'n ddiamwys fod croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg
- 2.3.2 Darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus lle mae aelod o'r cyhoedd wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw ei fod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg.
- 2.3.3 Sicrhau bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i groesawu a chynorthwyo'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath.
- 2.3.4 Sicrhau bod unrhyw arddangosfeydd yn cynnwys gwybodaeth a hysbysiadau dwyieithog.
- 2.3.5 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni a ddefnyddir yn ddwyieithog.

2.4 Cyfarfodydd eraill

Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal cyfarfodydd ar wahân i gyfarfodydd cyhoeddus fel rhan o'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae'r categori hwn yn cynnwys cynadleddau achos, ymgynghoriadau clinigol ayyb. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath neu sy'n gorfod cysylltu wyneb yn wyneb â'r Bwrdd lechyd wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a bod modd iddynt wneud felly.

- 2.4.1 Datblygir systemau i sicrhau bod dewis iaith ar gael ac i roi cleifion sy'n siarad Cymraeg mewn cysylltiad â staff sy'n siarad Cymraeg. Fe wneir hyn yr un fath lle bynnag y bo'r cysylltiad yn digwydd. Fe drefnir timau gwasanaeth mewn modd a fydd yn sicrhau bod aelodau staff dwyieithog digon rhugl ar gael i ddelio â chleientiaid Cymraeg eu hiaith; fel arall fe drefnir i gyfleusterau cyfieithu neu gyfieithydd ar y pryd fod ar gael,(pa un bynnag sydd fwyaf priodol). Fe wneir hyn yr un fath pa un a yw'r cysylltiadau'n digwydd ar safleoedd y Bwrdd lechyd, yng nghartref y claf neu rywle arall.
- 2.4.2 Fe annogir aelodau staff sy'n rhugl yn y Gymraeg i wisgo bathodynau sy'n dangos eu bod yn gallu delio â holiadau yn Gymraeg. Darperir bathodynau "Iaith ar Waith " ar gyfer pob aelod newydd o'r staff sy'n medru Cymraeg yn ystod ei sesiwn sefydlu a mewn sesiynau hybu ymwybyddiaeth o'r iaith.
- 2.4.3 Fe fydd staff derbynfa Cymraeg eu hiaith ar ddyletswydd mewn clinigau i gleifion allanol ac wrth brif fynedfeydd adeiladau'r Bwrdd

lechyd, a dynodir y rhain ag arwydd a bathodyn. Lle nad yw hyn yn bosibl, fe drefna'r Bwrdd lechyd i aelod staff arall Cymraeg ei iaith fod ar gael i ddelio â holiadau.

- 2.4.4 Caiff cronfa ddata o aelodau staff sy'n medru Cymraeg ei sefydlu i fod ar gael i bob aelod o'r staff. Mae hysbysu am ddewis iaith rhwng y gwahanol adrannau'n elefn hanfodol o sicrhau bod y gwasanaeth dwyieithog yn gweithio'n ymarferol.

2.5 Delio â'r cyhoedd trwy gyfryngau eraill

- 2.5.1 Bydd systemau sain yn ddwyieithog.
- 2.5.2 Bydd hysbysfyrddau electronig yn ddwyieithog.
- 2.5.3 Bydd gwefan y Bwrdd lechyd yn ddwyieithog.
- 2.5.4 Lle darperir gwasanaethau teledu a radio ar gyfer cleifion preswyl, fe ymdrecha'r Bwrdd lechyd i sicrhau bod cleifion yn gallu clywed/gweld gorsafoedd a sianeli Cymraeg.
- 2.5.5 Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd hefyd fod adnoddau Cymraeg e.e. llyfrau, crynoddsgiau, DVD's ayyb ar gael mewn wardiau plant.

Targed 3 - Cysylltiadau Wyneb yn Wyneb â'r Cyhoedd

Fe sicrhâ Bwrdd lechyd Prifysgol ABM fod y staff wrth brif fynedfeydd a mewn clinigau i gleifion allanol yn darparu gwasanaeth dwyieithog sylfaenol erbyn mis Rhagfyr 2011. Fe ddisgwylir i bob aelod o staff y derbynfeydd gyrraedd rhuglder digonol yn y Gymraeg, neu anelu at hyn, a chynigir hyfforddiant sylfaenol lle bo angen i staff presennol y prif fynedfeydd a'r derbynfeydd.

DIG3 - Dangosydd Iaith Gymraeg- Cysylltiadau Wyneb yn Wyneb â'r Cyhoedd

Nifer a % y swyddi yn nerbynfeydd clinigau cleifion allanol ac wrth brif fynedfeydd lle nodir bod y Gymraeg yn hanfodol, a'r % o'r rhain a lenwir gan siaradwyr Cymraeg.

2.6 Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Bwrdd lechyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd trwy ddefnyddio systemau cyfrifiadurol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod technoleg gwybodaeth hefyd yn chwarae rôl arferol mewn gwasanaethau nas darperir ar-lein.

Fe sicrhâ'r Bwrdd Iechyd fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal yn ei systemau technoleg gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn fe weithia'r Bwrdd Iechyd at gyflawni Safonau Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei Strategaethau Technoleg Gwybodaeth.

Bydd y cyhoedd yn gallu cyrchu gwybodaeth trwy Wefan Ryngrwyd y Bwrdd Iechyd yn Gymraeg a Saesneg gan y bydd y wefan yn cael ei chynnal mewn fformat dwyieithog. Bydd pob dogfen sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ar gael ar y wefan yn Gymraeg a Saesneg, ac fe gyhoeddir y ddau fersiwn ar yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys, ond nis cyfyngir i:-

- Ddatganiadau i'r Cyfryngau
- Cyngor i'r cyhoedd ar faterion iechyd
- Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru
- Unrhyw ddogfennau eraill ar gyfer sylw'r cyhoedd e.e. adroddiadau blynyddol, dogfennau ymgynghorol ayyb.

Targed 4 – Technoleg Gwybodaeth

Fe weithia Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM at weithredu Safonau Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn electronig, neu lle mae angen defnyddio Technoleg Gwybodaeth i'w gweinyddu, ar gael o'r un safonau yn Gymraeg ag yn Saesneg trwy gytundeb â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

DIG4 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Technoleg Gwybodaeth

Nifer y cynlluniau gwella

- a baratowyd
- a weithredwyd yn llawn yn dilyn asesiad trwy ddefnyddio cynllun asesu meddalwedd ddwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.0 Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad

3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ei hunaniaeth gorfforaethol yn hollol ddwyieithog.

3.1.1 Enw'r Bwrdd Iechyd yw "Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg/ Abertawe Bro Morgannwg University Health Board".

- 3.1.2 Bydd holl bapur ysgrifennu swyddogol a llofnodau electronig y Bwrdd lechyd yn dwyn enw, logo a chyfeiriad y sefydliad, ynghyd ag unrhyw wybodaeth safonol arall, yn ddwyieithog.
- 3.1.3 Bydd pob papur ysgrifennu arall, e.e. slipiau cyfarch, dalennau ffacs, cardiau busnes a bathodynau adnabyddiaeth yn ddwyieithog.
- 3.1.4 Bydd hunaniaeth y Bwrdd lechyd yn ddwyieithog hefyd ar gyhoeddiadau, arwyddion, cerbydau, adeiladau ac unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau eraill.
- 3.1.5 Bydd pob gwybodaeth a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd lechyd ar gyfer sylw uniongyrchol y cyhoedd yn hollol ddwyieithog.
- 3.1.6 Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff ynghylch defnyddio hunaniaeth ddwyieithog y Bwrdd lechyd.

3.2 Arwyddion

- 3.2.1 Bydd yr holl arwyddion parhaol a'r rhai dros dro a gynhrychir gan y Bwrdd lechyd neu ar ei ran yn ddwyieithog gan barchu egwyddor cydraddoldeb.
- 3.2.2 Lle mae arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran maint, siâp, fformat, ansawdd ac amlygrwydd.
- 3.2.3 Dangosir y Gymraeg uwchben y Saesneg neu ar yr ochr chwith.
- 3.2.4 I gynorthwyo'r staff gydag arwyddion dros dro neu rai a gynhrychir yn lleol, fe ddarperir cyfleusterau ar gyfer yr aelodau staff hynny sy'n dymuno cael cyfieithiad o bob arwydd newydd. Bydd geirfa o'r arwyddion a ddefnyddir amlycaf ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan Mewnrwyd Gymraeg y Bwrdd lechyd, a fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

3.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd ar gyfer Sylw'r Cyhoedd yng Nghymru

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i sicrhau y bydd y wybodaeth gyhoeddus y mae'n gyfrifol amdani'n hollol ddwyieithog.

- 3.3.1 Bydd pob cyhoeddiad a gynhrychir gan y Bwrdd lechyd ar gyfer sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Yr unig eithriad i hyn fydd achosion lle mae natur dechnegol y cynrychiad yn rhy gymhleth i adael inni gyflawni hyn e.e. mapiau neu gynlluniau neu ddogfennau a fyddai'n haws i'w darllen petai fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân. Yn yr achosion hyn fe gaiff y ddau fersiwn eu cyhoeddi ar yr un pryd a'u dosbarthu gyda'i gilydd, a byddant yr un mor hygyrch â'i gilydd.

- 3.3.2 Wrth i gyhoeddiadau sy'n bodoli eisoes gael eu hail-argraffu, fe'u cynhyrchir yn ddwyieithog.
- 3.3.3 Mewn achosion lle mae dogfennaeth a gynhyrchir gan eraill yn cael ei hargraffu yn Saesneg yn unig, fe annoga'r Bwrdd lechyd y grwpiau hyn (pa un a ydynt yn gyhoeddus, yn breifat neu'n wirfoddol) i gynhyrchu gwybodaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gyfer sylw'r cyhoedd yng Nghymru. Pan fydd y Bwrdd lechyd yn dosbarthu deunydd sydd wedi cael ei gynhyrchu gan sefydliadau eraill, h.y. Cyllid y Wlad ayyb, fersiynau dwyieithog a gaiff eu dosbarthu – os ydynt ar gael. Os yw'r deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd fod y ddau fersiwn ar gael.
- 3.3.4 Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd fod y testunau ar gyfer y ddwy iaith yr un mor amlwg mewn cyhoeddiadau dwyieithog, gan barchu egwyddor cydraddoldeb o ran maint, fformat a darllenadwyedd. Pan ddangosir y testun mewn dwy golofn, fe ymddengys y fersiwn Cymraeg yn y golofn ar y chwith.
- 3.3.5 Bydd eitemau amryfath megis cardiau apwyntiad a bwydlenni ar gyfer cleifion preswyl a gynhyrchir gan y Bwrdd lechyd hefyd yn ddwyieithog.
- 3.3.6 Fe roddir cyfarwyddyd i'r staff ar gyfer delio â chyhoeddiadau ysgrifenedig dwyieithog.

3.4 Ffurflenni a Deunydd Eglurhaol Cysylltiedig Arall

- 3.4.1 Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd fod yr holl ffurflenni, holiaduron a deunydd eglurhaol a ddosberthir ar gyfer sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog. Mewn achosion penodol, serch hynny, fe allai fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Yn y fath achosion, fe fydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg:

- Yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd
- Yr un mor hawdd i'w cael
- Yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd
- Yn cynnwys neges i gadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd mewn ieithoedd eraill.

Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu derbyn, darllen a llenwi'r fersiwn sydd yn eu dewis iaith.

- 3.4.2 Pan elwir ar aelodau staff i lenwi ffurflenni ar ran cleifion, fe wneir trefniadau i sicrhau bod y ffurflen yn cael ei llenwi yn newis iaith y claf.

3.5 Datganiadau i'r Cyfryngau

- 3.5.1 Bydd pob datganiad a fwriedir fel 'datganiad cynhwysfawr' ar gyfer sylw'r holl gyfryngau yng Nghymru'n cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.
- 3.5.2 Bydd y Bwrdd lechyd yn ymateb i holiadau unigol gan y cyfryngau yn iaith yr holiad cychwynnol.
- 3.5.3 Fe fydd aelod dwyieithog o'r staff ar gael i roi cyfweiliadau i'r cyfryngau os yw'r Bwrdd lechyd yn ystyried hyn yn briodol.

3.6 Hysbysebu a Chyhoedduswydd

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd a hysbysebu yng Nghymru'n ddwyieithog.

- 3.6.1 Bydd pob arddangosfa, sioe a stondin wybodaeth gyhoeddus a drefnir gan y Bwrdd lechyd yng Nghymru'n ddwyieithog.
- 3.6.2 Bydd pob deunydd cyhoedduswydd gan gynnwys posteri, hysbysfyrddau, arolygon cyhoeddus ac ymgyrchoedd yn ddwyieithog.
- 3.6.3 Bydd dogfennau a gynhyrchir i hybu polisïau'r Bwrdd lechyd yn ddwyieithog.
- 3.6.4 Rhoddir cyfarwyddyd ynghylch gweithredu'r mesurau uchod i aelodau staff ac eraill sydd â rhan yn y gwaith o hybu'r Bwrdd lechyd.
- 3.6.5 Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd hefyd fod pob hysbysiad cyhoeddus a gyhoeddir yng Nghymru'n ddwyieithog. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

3.7 Hysbysebion Recriwtio

Hysbysebir swyddi gwag trwy wefan genedlaethol ddwyieithog NHS Jobs ar www.jobs.nhs.uk

- 3.7.1 Nod y gwasanaeth recriwtio yw bod yn ddi-bapur. Mae pob cais am swydd yn cael ei chyflwyno ar-lein, a chaiff ymgeiswyr geisio am swyddi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y Bwrdd lechyd yn:
- 3.7.2 Sicrhau bod pob hysbyseb am swyddi'n ddwyieithog
- 3.7.3 Nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ynteu'n hanfodol. Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff ynghylch sut i benderfynu hyn
- 3.7.4 Cyfeirio at y ffaith bod y Bwrdd lechyd yn gweithredu polisi dwyieithog

- 3.7.5 Gwirio a yw ymgeiswyr am swyddi'n dymuno derbyn gohebiaeth ddilynol yn Gymraeg ynteu yn Saesneg.
- 3.7.6 Fe gyhoeddir hysbysebion am swyddi gwag yn y wasg leol yng Nghymru mewn fformat dwyieithog. Mewn achosion lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd benodol, fe osodir hysbyseb yn Gymraeg yn unig yn y wasg leol a'r wasg Brydeinig, ynghyd â nodyn eglurhaol yn Saesneg. Fel rheol bydd hysbysebion mewn cyfnodolion a phapurau newydd Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg yn unig. Yn y wasg Brydeinig, lle nad yw'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd, fe osodir yr hysbyseb yn Saesneg gyda throednodyn dwyieithog yn datgan ymrwymiad y Bwrdd lechyd i'r iaith Gymraeg.
- 3.7.7 Fe gynhwysir gofynion ynghylch recriwtio a'r Gymraeg ym Mholisi Recriwtio'r Bwrdd lechyd.

4.0 Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Fe ddatblyga'r Bwrdd lechyd Strategaeth Sgiliau iaith. Nod y Strategaeth fydd galluogi'r Bwrdd lechyd i ddarparu gwasanaeth safonol ar gyfer ein poblogaeth ddwyieithog yn unol â'r ymrwymadau yn y Cynllun. Fe gydranna'r Bwrdd lechyd arferion da â sefydliadau eraill.

4.1 Staffio a Recriwtio

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i sicrhau, lle'r ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei ragnodi wrth recriwtio ar gyfer y swydd honno.

Bwriad y Bwrdd lechyd yw gweithio gyda sefydliadau addysgol a phroffesiynol yng Nghymru at unioni hyd y gellir unrhyw broblemau tymor hir yng nghyswllt recriwtio siaradwyr Cymraeg. Wrth drafod hyfforddiant, bydd y Bwrdd lechyd yn datgan ei ofynion i'r cyrff priodol o ran nifer y personél nyrsio neu ofal dwyieithog sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth ar gyfer cleifion yn eu dewis iaith.

Bydd y Bwrdd lechyd yn:

- 4.1.1 Sicrhau bod gweithleoedd sy'n debygol o fod mewn cysylltiad â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn ymdrechu i gyrchu nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.1.2 Ystyried gallu ieithyddol yn un o'r lluo o sgiliau perthnasol wrth benodi staff.
- 4.1.3 Nodi'r gweithleoedd, y swyddi a'r timau hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, er mwyn asesu'r lefel

rhuglder a fydd angen ym mhob achos a llunio disgrifiadau swyddi yn unol â hynny

- 4.1.4 Cynorthwyo Tîm Rheoli'r Cyfarwyddiaethau i sefydlu cofrestr o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, eu lleoliad, eu swyddi a lefel eu rhuglder yn yr iaith. Fe gysylltir hyn â'r gwaith sy'n mynd ymlaen yng nghyswllt Cofrestr Electronig y Staff. Bydd Penaethiaid Adrannau'n gyfrifol am hysbysu'r swyddogion sy'n diweddarau'r gofrestr am newidiadau yn y staff.
- 4.1.5 Gweithio gyda'r staff yn y ffordd fwyaf priodol i sicrhau bod hyfforddiant digonol a pherthnasol yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol o aelodau staff Cymraeg eu hiaith ar gael ym mhob adran a gwasanaeth
- 4.1.6 Mewn meysydd lle mae diffyg siaradwyr Cymraeg, bydd y Bwrdd lechyd yn mabwysiadu patrwm gweithredu rhagweithiol wrth recriwtio a hyfforddi er mwyn denu siaradwyr Cymraeg i'r meysydd perthnasol
- 4.1.7 Adnabod a chefnogi aelodau staff sy'n dymuno dysgu'r iaith neu loywi eu Cymraeg. Bydd lefelau'r cymorth sydd ar gael yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Bwrdd lechyd; ond gwerthusir y lefelau hyn bob blwyddyn
- 4.1.8 Annog a chefnogi'r aelodau staff sy'n dymuno cyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg. Bydd hyn yn hybu argaeledd gwasanaeth dwyieithog ac yn cryfhau cyfathrebiad dwyieithog â chleifion ac ymwelwyr.

Targed 5 - Recriwtio

Fe sicrhâ Bwrdd lechyd Prifysgol ABM fod nifer ddigonol o aelodau staff ar gael i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg trwy asesu pob swydd sy'n syrthio'n wag a hysbysebu'r gofynion o ran iaith fel rhan o'r broses recriwtio.

DIG5 – Dangosydd Iaith Gymraeg - Recriwtio

Nifer y swyddi a hysbysebwyd y nodwyd bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar eu cyfer a'r ganran a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.

Targed 6 – Sgiliau Iaith

Bydd Bwrdd lechyd Prifysgol ABM yn sicrhau bod nifer ddigonol o aelodau staff ar gael ar draws y gwasanaethau a ddarperir ganddo, ac yn monitro lefel gallu ei staff yn unol â lefel y safonau.

DIG6 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Sgiliau Iaith

Nifer a % yr aelodau staff â sgiliau Cymraeg fesul adran gwasanaeth, gradd y swydd a gweithle.

4.2 Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Galwedigaethol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn asesu'r angen am hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y staff presennol ac, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael, yn darparu cyrsiau i'w helpu i wireddu'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Iaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo cyrsiau hyfforddi ar gyfer grwpiau allweddol sydd mewn cysylltiad â chleifion a'r cyhoedd i'w galluogi i weithredu yn eu meysydd eu hunain trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fe weithreda'r Bwrdd Iechyd fframwaith o hyfforddiant yn y Gymraeg, gan ddysgu gwersi gan eraill a chydrannu yr hyn a ddysgwn a'n profiadau o ddatblygu gofal iechyd dwyieithog ar draws Cymru.

Fe dderbynia pob aelod staff newydd hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r iaith trwy'r rhaglen sefydlu staff. Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth o'r iaith hefyd yn y gwahanol adrannau yn ôl y galw ar gyfer y staff sydd ganddynt yn barod.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM yn cydnabod bod y gallu i ddeall a defnyddio'r Gymraeg ar lefel safonol yn y gweithle yn sgil werthfawr a all gynorthwyo'r staff i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer cleifion.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i annog a chynorthwyo ei aelodau staff i ddysgu'r iaith neu loywi eu Gymraeg. Fe ganolbwyntir adnoddau ar y meysydd a'r adrannau hynny lle bydd cysylltiadau aml â siaradwyr Gymraeg, boed ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. I gyflawni hyn, fe fydd y Bwrdd Iechyd yn:

- 4.2.1 Ystyried anghenion aelodau unigol o'r staff a'u dymuniad i ddysgu Gymraeg trwy gyfrwng ei systemau arfarnu a'r prosesau ar gyfer Adolygu Datblygiad y Staff
- 4.2.2 Rhoi blaenoriaeth i aelodau staff sy'n dod i gysylltiad â chleifion a'r cyhoedd yn aml, neu lle mae diffyg sgiliau dwyieithog
- 4.2.3 Trefnu cyrsiau sylfaen i alluogi aelodau staff sydd heb gras ar yr iaith i ddysgu peth Gymraeg 'defnyddiol' fel y gallant gyfarch cleifion o leiaf yn eu dewis iaith.
- 4.2.4 Fe ddarperir gwe-gysylltiadau â gwefannau dysgu Gymraeg ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu mynychu dosbarthiadau, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau dysgu o bell sydd ar gael
- 4.2.5 Fe drefnir digwyddiad Gymraeg bob blwyddyn i ddathlu cyraeddiadau dysgwyr Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd, ac annogir dysgwyr i ddathlu eu llwyddiant a chydrannu eu cyraeddiadau trwy gystadlu am Wobrau Blynyddol y Gymraeg mewn Gofal Iechyd.

- 4.2.6 Fe gynorthwya'r Bwrdd lechyd ei staff i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ddarparu pecyn meddalwedd y cywirydd sillafu a therminoleg Gymraeg ar gyfrifiaduron ynghyd â rhyngwyneb Cymraeg Microsoft.
- 4.2.7 Fe benoda'r Bwrdd lechyd swyddogion i fynychu cyfarfodydd chwarterol Amddiffynwyr GIG Cymru Gyfan a Chysylltbwyntiau.

Targed 7 – Hyfforddiant iaith

Bydd Bwrdd lechyd Prifysgol ABM yn cynyddu nifer yr aelodau staff yn ei weithleoedd sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac sydd yn gwneud hyn, er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer darparu gwasanaeth safonol. Fe ddarperir hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol, a hyfforddiant gloywi iaith yn ogystal â chysiau 'blas'.

DIG7 - Dangosydd iaith Gymraeg - Hyfforddiant iaith

Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg hyd at lefel cymhwyster priodol.

Targed 8 - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth

Fe sicrhâ Bwrdd lechyd Prifysgol ABM fod pob aelod staff newydd yn derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o'r broses sefydlu gorfforaethol neu, lle nad yw hyn ar gael, cyn pen 3 mis ar ôl iddynt gychwyn yn eu swyddi. Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd hefyd bod adnoddau hyfforddiant iaith ar gael i'r staff presennol i gyd.

DIG8 - Dangosydd iaith Gymraeg - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth

Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r iaith.

4.3 Trefniadau Gweinyddol

- 4.3.1 Bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg statws swyddogol yn nhrefniadau gweinyddol y Bwrdd lechyd. Bydd gan y staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio â'r Bwrdd lechyd. Lle bo'n bosibl, fe gaiff agweddau Cymraeg ar y gwasanaeth eu hintegreiddo ym mhrosesau gweinyddol cyffredinol y Bwrdd lechyd.
- 4.3.2 Fe roddir cyfrifoldeb i reolwyr am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau. Bydd gofyn iddynt adrodd am hyn yn rheolaidd fel rhan o'r adolygiadau cyffredinol a mewn adroddiadau bob tri mis i Weithgor yr Iaith Gymraeg. Fe gyflwyno'r gweithgor hwn adroddiadau ar gynnydd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd. Gan y Prif Weithredydd y bydd yr atebolrwydd cyffredinol mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Mae

Ysgrifennydd y Bwrdd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb gweithredol, a ymddiriedir o ddydd i ddydd i'r Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol.

4.3.3 Bydd y Bwrdd lechyd:

- Yn sicrhau bod gan Gynllun yr Iaith Gymraeg awdurdod llawn y Bwrdd wrth i'r mesurau gael eu gweithredu
- Yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r Cynllun, y broses o'i weithredu a'r hyn a ddisgwylir. Fe drefnir sesiynau ymwybyddiaeth ar draws y Bwrdd lechyd, ac fe wneir y staff yn ymwybodol o berthnasedd a phwysigrwydd elfennau ymarferol y Cynllun. Bydd taflenni ar gael i ddarparu cyfarwyddyd ynghylch gwahanol agweddau ar y Cynllun. Bydd ymwybyddiaeth aelodau newydd o'r staff o'r Cynllun yn cael ei chodi yn ystod sesiynau sefydlu i'r staff. Fe sicrhâ'r Bwrdd lechyd fod unrhyw hyfforddiant ynghylch cyfleoedd cyfartal yn delio hefyd â'r mater o ddewis iaith.

4.3.4 Bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Bwrdd lechyd:

- Yn gyfrifol am integreiddio'r Gymraeg ym mhroses weinyddol y Bwrdd lechyd
- Yn sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu o ansawdd uchel ar gael trwy gyfrwng cyfieithwyr allanol.
- Yn sicrhau bod Gweithgor Iaith Gymraeg yn cael ei sefydlu'n fuan, y bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyfarwyddiaethau, a hynny yn y pedwar prif faes gwasanaeth yn arbennig (sef iechyd meddwl, anabledau dysgu, gwasanaethau i'r henoed a gwasanaethau pediatri) ynghyd â chynrychiolwyr staff allweddol o adrannau a fydd yn cynnwys Cydraddoldeb, Cyfathrebiadau, Recriwtio a Hyfforddiant a Datblygiad. Fe barhâ Gweithgor Iaith Gymraeg y Bwrdd lechyd i hwyluso a monitro'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r Cynllun. I sicrhau cysondeb ac ansawdd y gweithredu, fe gynhyrchir taflenni cyfarwyddyd i'r staff ynghylch elfennau penodol o'r Cynllun
- Yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun bob tair blynedd, ac am baratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr yn asesu perfformiad a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun ers iddo gael ei roi mewn grym. Fe gyflwynir yr adroddiad hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.4 Trydydd Partïon

4.4.1 Bydd y Bwrdd lechyd:

- Yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ar

gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a gontractir allan.

- Yn sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o delerau'r Cynllun lle mae'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar ran y Bwrdd Iechyd. Bydd manylion unrhyw gytundebau/contractiau'n adlewyrchu hyn
- Yn dosbarthu canllawiau ysgrifenedig i'r staff ynghylch delio ag asiantaethau, contractwyr a darparwyr gan fanylu ar y gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg yn ei holl drefniadau busnes
- Yn darparu cymorth i'r gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Bwrdd Iechyd.

4.5 Monitro'r Cynllun

4.5.1 Gweithgor yr Iaith Gymraeg fydd y mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro cynnydd at weithredu mesurau yng nghyswllt Cynllun yr Iaith Gymraeg, ond cyflawnir y gwaith hwn rhwng cyfarfodydd y gweithgor hwnnw gan Swyddog yr Iaith Gymraeg.

4.5.2 Bydd Gweithgor yr Iaith Gymraeg:

- Yn derbyn adroddiadau ynghylch amserau ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg
- Yn derbyn adroddiadau ynghylch ansawdd y gwasanaethau cyfieithu
- Yn monitro hunaniaeth gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, yn nhermau cydymffurfriad o ran cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau printiedig eraill
- Yn derbyn adroddiadau am sut mae'r mesurau ynghylch staffio a hyfforddi'n cael eu gweithredu
- Yn derbyn adroddiadau ynghylch y modd y mae contractwyr ac asiantiaid yn darparu ac yn gweinyddu gwasanaethau
- Yn derbyn adroddiadau ynghylch amlder a natur y cwynion a dderbynnir am wasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd
- Yn derbyn adroddiadau ynghylch y trefniadau sydd mewn grym i gyflawni'r cynllun gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun a'r amserlen.
- Yn monitro barn siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir.

4.5.3 Fe dderbynia'r Bwrdd Adroddiad Monitro Blynyddol, a fydd yn ei alluogi i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Asesu a yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Cynllun
- Asesu cydymffurfiad â'r Cynllun yn ôl yr amserlen a'r safonau
- Asesu ansawdd ei wasanaethau yn Gymraeg.

4.5.4 Fe gyflwyno'r Bwrdd Iechyd adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn fformat cymeradwy I gadarnhau cynnydd tuag at weithredu'r Cynllun yn ôl yr amserlen a'r safonau a gymeradwy-wyd. Fe gynhwysir dadansoddiad o nifer a natur y cwynion a'r awgrymiadau ynghylch gwelliannau a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd.

Yn ystod bywyd tair blynedd y Cynllun hwn, fel rhan o'i adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth fe ymgymera'r sefydliad ag arolwg thematig fydd yn canolbwyntio ar yr elfennau canlynol:

2010/11 – gwasanaethau i'r pedwar grŵp blaenoriaethol
2011/12 – sgiliau, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ieithyddol
2012/14 – rheoli gwybodaeth ynghylch cleifion a throsglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith.

4.6. Ymchwiliadau dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg

Petai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dymuno cynnal ymchwiliad dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn dilyn cwyn ffurfiol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cydweithredu trwy ddarparu gwybodaeth, adroddiadau, dogfennau a/neu esboniad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn fodlon gwneud hyn mewn ysgrifen neu'n bersonol, a gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg drafod y mater gydag

- Aelod etholedig;
- Swyddog a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd;
- Darparwr gwasanaethau trwy gytundeb â'i gyflogedig;
- Unrhyw unigolyn arall a fo'n cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddarparu ei wasanaethau.

4.7 Cwynion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac mae'n croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau a fydd yn ei helpu i gyflawni hyn. Mae'r cyhoedd yn gallu cyfleu canmolïaethau, pryderon neu awgrymiadau i Swyddog yr Iaith Gymraeg neu'r Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol a fydd yn ateb ar lafar neu mewn ysgrifen (trwy lythyr neu e-bost) yn unol â dymuniadau'r person sy'n cysylltu â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu cyfleoedd i adolygu sut mae'n darparu

gwasanaethau fel y gall ymdrechu i wneud gwelliannau angenrheidiol lle bo angen.

Gellir cysylltu â Swyddog yr Iaith Gymraeg neu'r Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol ABM, Prif Swyddfeydd y Bwrdd Iechyd, 1 Porthfa Talbot, Port Talbot SA12 7BR

Ffôn: 01639 683670
Ffacs: 01639 687675
E-bost: enquiries@amb.wales.nhs.uk

Targed 9 – Cwynion

Fe ddelia Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM â chwynion ynghylch gweithrediad y Cynllun Iaith hwn yn brydlon ac yn unol â gweithdrefnau corfforaethol y sefydliad.

DIG 9 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Cwynion

Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynghylch gweithrediad y Cynllun Iaith a'r ganran o gwynion a driniwyd yn unol â safonau'r sefydliad.

4.8 Cyhoeddi Gwybodaeth

Fe gyhoeddir gwybodaeth bob blwyddyn am y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r Cynllun ac yn cymharu'r perfformiad â'r safonau a osodwyd yn y Cynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd ganddo yn ystod y flwyddyn, a bydd hwn yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

4.9 Cyhoeddusrwydd

Fe ddefnyddia'r Bwrdd Iechyd amryw ddulliau o gyfathrebu â'i staff a rhanddeiliaid i hyrwyddo ei ymrwymadau i ddwyieithrwydd a chynorthwyo'r staff i hybu cyfleusterau a gwasanaethau yn Gymraeg.

4.9.1 Bydd copïau o Gynllun yr Iaith Gymraeg ar gael ar wefannau Mewnwyd a Rhyngwyd y Bwrdd Iechyd. Fe ddengys y Bwrdd Iechyd ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- Trwy ddarparu crynodeb o Gynllun yr Iaith Gymraeg ar gyfer y staff a chontractwyr ar y Fewnwyd. Bydd copi caled ar gael lle nad yw'n bosibl cysylltu â'r Fewnwyd
- Trwy raglenni sefydlu staff a llawlyfrau i'r staff

- Trwy wneud datganiad cadarnhaol mewn deunydd gwybodaeth cyffredinol ar gyfer cleifion e.e. y llyfrynau a roddir i gleifion preswyl wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty ayyb
- Trwy ddsbarthu'r Cynllun i'r Awdurdodau Lleol yn yr ardal.

Targed 10 - Cyhoedduswydd

Fe hyrwydda Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM weithgareddau penodol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg fel y gall siaradwyr Cymraeg ddewis eu defnyddio.

DIG 10 - Dangosydd Iaith Gymraeg - Cyhoedduswydd

Canolfannau galw a llinellau ffôn – nifer a % y galwadau yn Gymraeg fesul gwasanaeth i'w monitro trwy hapsamplu ac ymarferion 'siopwyr dirgel'.
Gwasanaethau ar-lein – nifer a % y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg

5 Amserlen Gweithredu

Rhif	Tasg	Graddfa Amser	Atebolrwydd
1	Sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r Cynllun a'i oblygiadau	Bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Iaith Gymraeg y Cyfarwyddiaethau
2	Paratoi crynodeb o Gynllun yr Iaith Gymraeg ar gyfer y staff, contractwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol	Mehefin 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg
3	Sefydlu Gweithgor yr Iaith Gymraeg i weithredu a monitro'r Cynllun	Mehefin 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg
4	Monitro'r broses o brif-ffrydio'r Gymraeg fel rhan o'r Polisiâu ynghylch Dadansoddi Effeithiau ar Ansawdd	Bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Cydraddoldeb
5	Gwneud trefniadau i sicrhau ei bod yn orfodol rhoi dewis iaith trwy'r system Myrddin	Rhagfyr 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Swyddog Cynllun Gweithredu Myrddin
6	Trefnu i adrannau gynnal arolwg o sgiliau iaith y staff a chadw'r wybodaeth honno ar gronfa ddata leol	Rhagfyr 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
7	Rhoi canllawiau / cyfarwyddyd i Gyfarwyddiaethau Clinigol ynghylch gweithredu Cynllun yr Iaith Gymraeg a chydymffurfio ag ef	Ionawr 2011	Swyddog yr Iaith Gymraeg
8	Sicrhau bod pob llythyr a cherdyn apwyntiad yn ddwyieithog.	Rhagfyr 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
9	Darparu canllawiau ynghylch cyfarchiadau dwyieithog ar y ffôn a sut i ddelio â galwadau yn Gymraeg	Mehefin 2010 a bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg

10	Datblygu gwefan ddwyieithog Monitro gwefan y Bwrdd lechyd	Rhagfyr 2010 Bob tri mis	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Tîm Cyfathrebiadau
11	Monitro hunaniaeth gorfforaethol y Bwrdd lechyd gan gynnwys arwyddion ffurfiol ac anffurfiol a hysbysebion, i sicrhau eu bod yn hollol ddwyieithog	Bob chwe mis	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Tîm Cyfathrebiadau
12	Monitro'r broses o sicrhau bod pob gwybodaeth, pob cyhoeddiad a phob deunydd printiedig a gynhyrchir ar gyfer sylw'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog	Bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
13	Gwerthuso'r gwersi Cymraeg a ddarperir ar gyfer y staff	Bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg
14	Datblygu Taflen Wybodaeth ar gyfer Clinigwyr i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Cynllun a'i berthnasedd i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cleifion	Rhagfyr 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg
15	Cyhoeddi canllawiau ysgrifenedig ar gyfer asiantaethau, contractwyr a darparwyr, yn datgan y gofynion ynghylch defnyddio'r Gymraeg ym mhob trefniant busnes a wneir gyda'r Bwrdd lechyd	Mawrth 2011	Swyddog yr Iaith Gymraeg
16	Datblygu offeryn archwilio i fonitro'r Cynllun	Medi 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg
17	Cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd lechyd ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Bob blwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg
18	Datblygu, monitro a diweddarau gwefan Gymraeg y Fewnwyd	Bob tri mis	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
19	Darparu hyfforddiant i alluogi aelodau staff y prif fynedfeydd a'r derbynfeydd nad ydynt yn medru Cymraeg i gynnig gwasanaeth dwyieithog sylfaenol	Rhagfyr 2011	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg

20	Sicrhau bod dewis iaith y claf ymhlith y manylion a drosglwyddir adeg newydd sifft ym mhob ward	Ionawr 2011	Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
21	Darparu llofnod e-bost angenrheidiol; templat neges 'allan o'r swyddfa' ar dudalen adnoddau Cymraeg y Fewnrwyd	Mehfin 2010	Swyddog yr Iaith Gymraeg
22	Darparu cywirydd sillafu Cymraeg a phecyn terminoleg Cysgair ynghyd â rhyngwyneb Cymraeg Microsoft ar gyfrifiaduron	Fe'i gosodir ar bob cyfrifiadur a ddsberthir o fis Mawrth 2011 ymlaen, a'i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n gofyn amdano o fis Mehefin 2010 ymlaen	Swyddog yr Iaith Gymraeg
23	Nodi'r lleoliadau, y swyddi a'r timau hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a chynnwys y wybodaeth honno mewn mesurau recriwtio	Cyfarwyddyd ffurfiol mewn grym o fis Medi 2010 ymlaen	Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
24	Sefydlu proses monitro i wyllo cydymffurfiad contractwyr trydydd parti â'r Cynllun	Ionawr 2011	Swyddog yr Iaith Gymraeg / Amddiffynwyr Lleol y Gymraeg
25	Bydd y Bwrdd Iechyd yn llwyr gefnogi mentrau TWF, a sicrhau bod y deunyddiau marchnata yn cael eu harddangos a'u dosbarthu mewn mannau addas ar gyfer y cyhoedd.	Parhaus	Swyddog Iaith Gymraeg/ Nyrsio a Bydwreigiaeth.

26	Sicrhau bod y rheolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a monitor staff yn ymwybodol o'r ymrwymadau y cynllun	Medi 2011	Pennaeth Recriwtio
----	--	-----------	--------------------